



# Misoedd y Flwyddyn

| | | |
|---|---|---|
| Ionawr  | Chwefror  | Mawrth  |
| Ebrill  | Mai  | Mehefin  |
| Gorffennaf  | Awst  | Medi  |
| Hydref  | Tachwedd  | Rhagfyr  |



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa fis yw'r mis cyntaf yn y flwyddyn ?
2. Pa fis sy'n dod ar ôl mis Awst?
3. Pa fisoedd sy'n dechrau gyda'r llythyren M ?
4. Chwiliwch am y misoedd sy'n cynnwys llythrennau dwbl?







**Trafodwch:-**

Pryd rydych chi'n dathlu eich pen-blwydd?

Sut rydych chi'n dathlu a phwy sy'n dathlu gyda chi?


# Misoedd y Flwyddyn

| | | |
|---|---|---|
| Ionawr  | Chwefror  | Mawrth  |
| Ebrill  | Mai  | Mehefin  |
| Gorffennaf   | Awst  | Medi  |
| Hydref  | Tachwedd  | Rhagfyr  |



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pryd rydyn ni'n dathlu noson Guto Ffowc?
2. Pa fis sy'n dod ar ôl mis Awst?
3. Pa fisoedd sy'n gorffen gyda'r llythyren "r"?
4. Chwiliwch am y misoedd sy'n cynnwys llythrennau dwbl?
5. Pryd rydyn ni'n mynd i Eisteddfod yr Urdd?
6. Pa fisoedd sy'n dod cyn Ebrill?



**Trafodwch:-**

Pryd rydych chi'n dathlu eich pen-blwydd?

Sut rydych chi'n dathlu a phwy sy'n dathlu gyda chi?

# Pedro Pêl-droed



| | |
|---|---|
| **Enw:** | Pedro Pêl-droed |
| **Oed:** | 11 |
| **Pen-blwydd:** | Mawrth 7fed |
| **Enw cartref:** | Maes y Bêl |
| **Teulu:** | Dau frawd-Pablo a Pedrig |
| **Hoff beth:** | Pêl-droed a rygbi |
| **Hoff fwyd:** | Sglodion a bysedd pysgod |
| **Cas fwyd:** | Salad |
| **Ffrind gorau:** | Cen Cowboi |



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pryd mae Pedro yn dathlu ei ben-blwydd?
2. Ble mae e'n byw?
3. Beth yw ei hoff a'i gas fwyd?
4. Sawl brawd sydd gyda fe?



**Trafodwch:-**

Allwch chi gyflwyno eich hun i weddill y grŵp gan gofio'r pethau yma?

- Cartref
- Teulu
- Hoff a chas beth
- Ffrindiau
- Hoff a chas fwyd

# Pedro Pêl-droed




**Enw:** Pedro Pêl-droed
**Oed:** 11
**Pen-blwydd:** Mawrth 7fed
**Enw cartref:** Maes y Bêl
**Teulu:** Dau frawd-Pablo a Pedrig
**Ysgol:** Ysgol y Crydd
**Diddordebau:** Pêl-droed a rygbi
**Hoff fwyd:** Sglodion a bysedd pysgod
**Cas fwyd:** Salad
**Hoff wers:** Chwaraeon
**Ffrind gorau:** Cen Cowboi



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pryd mae Pedro yn dathlu ei ben-blwydd?
2. Ble mae e'n byw?
3. Beth yw ei hoff a'i gas fwyd?
4. Pa wers mae Pedro'n ei hoffi yn yr ysgol?
5. Beth fydd ei oed y flwyddyn nesaf?
6. Sawl brawd sydd gyda fe?



**Trafodwch:-**

Allwch chi gyflwyno eich hun i weddill y grŵp gan gofio'r canlynol?

- Cartref
- Teulu
- Dyddiad pen-blwydd
- Diddordebau
- Hoff wers
- Ffrindiau
- Hoff a chas fwyd
- Ysgol

# Dela Dawnsio



| | |
|---|---|
| **Enw:** | Dela Dawnsio |
| **Oed:** | 10 |
| **Pen-blwydd:** | Ionawr 25ain |
| **Enw cartref:** | Plas y Ddawns |
| **Teulu:** | Un chwaer—Dora, 6 oed |
| **Ysgol:** | Ysgol Tip Tap |
| **Hoff beth:** | Dawnsio, cadw'n heini |
| **Hoff fwyd:** | Salad ffrwythau |
| **Cas fwyd:** | Siocled |
| **Ffrind gorau:** | Siwsi Stileto |



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw chwaer Dela?
2. Faint yw ei hoed hi?
3. Pwy yw ei ffrind gorau?
4. Beth yw enw'r ysgol?
5. Ble mae'r ddwy chwaer yn byw?



**Trafodwch:-**

Oes diddordebau gyda chi?
Soniwch wrth y grŵp amdanynt.
Cofiwch sôn am:

- Beth.....?
- Ble......?
- Pwy.....?
- Pryd.....?
- Sut .....?

# Dela Dawnsio




| | |
|---|---|
| **Enw:** | Dela Dawnsio |
| **Oed:** | 10 |
| **Pen-blwydd:** | Ionawr 25ain |
| **Enw cartref:** | Plas y Ddawns |
| **Teulu:** | Un chwaer—Dora, 6 oed |
| **Ysgol:** | Ysgol Tip Tap |
| **Diddordebau:** | Dawnsio, cadw'n heini |
| **Hoff fwyd:** | Salad ffrwythau |
| **Cas fwyd:** | Siocled |
| **Hoff wers:** | Technoleg |
| **Ffrind gorau:** | Siwsi Stileto |



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw chwaer Dela?
2. Faint yw ei hoed hi?
3. Pwy yw ei ffrind gorau?
4. Technoleg yw ei ..................
5. Beth yw enw'r ysgol?
6. Ble mae'r ddwy chwaer yn byw?



**Trafodwch:-**

Oes diddordebau gyda chi?
Soniwch wrth y grŵp amdanynt.
Cofiwch sôn am:

- Beth...?
- Ble....?
- Pwy.....?
- Pryd.....?
- Sut.....?

# Trip i Gaerdydd

9.00 y.b.
Ionawr 10fed

Pris y bws:
£5 i oedolion
£2.50 i blant





Tocynnau i'r gêm:
£10 i oedolion
£5 i blant

Bydd Pedro Pêl-droed yn casglu enwau cyn y 5ed o Ionawr.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. I ble mae'r trip yn mynd?
2. Faint o'r gloch maen nhw'n cychwyn?
3. Erbyn pryd mae eisiau rhoi enwau i Pedro?
4. Faint yw pris tocyn oedolyn i'r gêm?



**Trafodwch:-**

Ble rydych chi'n hoffi mynd ar y bws?

Soniwch am beth rydych chi'n ei weld a beth rydych chi'n ei wneud ar y bws.

# Trip i Gaerdydd

9.00 y.b.
Ionawr 10fed

Pris y bws:
£5 i oedolion
£2.50 i blant






Tocynnau i'r gêm:
£10 i oedolion
£5 i blant

Bydd Pedro Pêl-droed yn casglu enwau cyn y 5ed o Ionawr.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. I ble mae'r trip yn mynd?
2. Faint o'r gloch maen nhw'n cychwyn?
3. Erbyn pryd mae eisiau rhoi enwau i Pedro?
4. Faint yw pris tocyn oedolyn i'r gêm?
5. Beth yw lluosog tocyn?
6. Faint o arian fydd eisiau i dad a dau blentyn i fynd?



**Trafodwch:-**

Ydych chi'n cofio ble aethoch chi ar eich trip ysgol diwethaf?

Soniwch am beth weloch chi a beth wnaethoch chi.

Ewch i chwilio am Gaerdydd yn Atlas 1.

# Portread



Helo blant. Fflora Fflip-fflop ydw i ac rydw i'n byw yn Hafan y Môr, Hendre'r Sgidiau. Rydw i'n cael fy mhen-blwydd ar 16eg o Orffennaf. Fy hoff fwyd yw pysgod o bob math.

Rydw i wrth fy modd yn nofio ac yn bola heulo gyda fy ffrindiau ar draeth hyfryd Llangrannog yn yr haf.

Bob blwyddyn fe fyddaf yn mynd ar fy ngwyliau i Ffrainc. Clara Clocsen yw fy ffrind gorau ac weithiau fe fyddwn yn mynd ar wyliau gyda'n gi-lydd.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw cartref Fflora?
2. Ble mae hi'n bola heulo?
3. Pwy yw ei ffrind gorau?
4. Beth mae'r ddwy yn ei wneud gyda'i gilydd?



**Trafodwch:-**

Beth ydych chi'n ei wneud a'i weld ar lan y môr?

# Portread



Helo blant. Fflora Fflip-fflop ydw i ac rydw i'n byw yn Hafan y Môr, Hendre'r Sgidiau. Rydw i'n cael fy mhen-blwydd ar 16eg o Orffennaf. Fy hoff fwyd yw pysgod o bob math ond dydw i ddim yn hoffi sglodion o gwbl! Ych-a-fi!


Fe fyddaf wrth fy modd yn nofio ac yn bola heulo gyda fy ffrindiau ar draeth hyfryd Llangrannog yn yr haf. Ond, teithio i wledydd tramor yw fy hoff ddiddordeb.

Bob blwyddyn fe fyddaf yn mynd ar fy ngwyliau i Ffrainc ac yn cael malwod blasus i fwyta. Clara Clocsen yw fy ffrind gorau ac weithiau fe fyddwn yn mynd ar wyliau gyda'n gilydd.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw cartref Fflora?
2. Pryd mae Fflora yn dathlu ei phen-blwydd?
3. Ble mae hi'n bola heulo?
4. Pwy yw ei ffrind gorau?
5. Beth mae'r ddwy yn ei wneud gyda'i gilydd?
6. Pa fwyd mae hi'n ei flasu yn Ffrainc?



**Trafodwch:-**

Beth ydych chi'n ei wneud a'i weld ar lan y môr?

Oes hoff draeth gyda chi?
Dywedwch ychydig amdano.

# Sgript ffrindiau Hendre'r Sgidiau

**Cen** Ffoniwch 999 ar unwaith! Ydych chi'n clywed? Mae rhywun wedi dwyn fy 'sgidiau lledr o'r tŷ!

**Wali** Gan bwyll nawr Cen. Does neb yn dwyn yn Hendre'r Sgidiau. Rydyn ni i gyd yn ffrindiau da yma ac yn helpu ein gilydd bob amser.

**Siwsi** Edrychwch! Mae Plismon Puw wedi cyrraedd ac mae e'n cario ei lyfr nodiadau hefyd.

**Plismon** Nawr te ffrindiau! Beth sy'n mynd ymlaen fan hyn? Beth sydd wedi digwydd?

**Cen** Wel, Cwnstabl, mae rhywun wedi dwyn fy het ledr a'm sgidiau lledr o'r tŷ a does dim pâr arall o 'sgidiau gyda fi.

**Plismon** Wel! Wel! Mae hyn yn fater difrifol ffrindiau! Fe fydd rhaid i fi gael eich cyfeiriadau.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa rif rydych chi'n ei ddeialu i alw plismon?
2. Sut fath o eisgidiau oedd gyda Cen?
3. Beth oedd Plismon Puw yn cario yn ei law?
4. Beth oedd y plismon eisiau wrth bawb?



**Trafodwch:-**

Ydych chi'n gwybod beth yw eich cyfeiriad chi?

Os nad ydych chi'n gwybod, beth am fynd ati i chwilio amdano.


# Sgript ffrindiau Hendre'r Sgidiau

| | |
|---|---|
| Cen | Ffoniwch 999 ar unwaith! Ydych chi'n clywed? Mae rhywun wedi dwyn fy sgidiau lledr o'r tŷ! Ffoniwch 999! |
| Wali | Gan bwyll nawr Cen. Does neb yn dwyn yn Hendre'r Sgidiau. Rydyn ni i gyd yn ffrindiau da yma ac yn helpu ein gilydd bob amser. |
| Siwsi | Edrychwch! Mae Plismon Puw wedi cyrraedd â'i wynt yn ei ddwrn ac mae e'n cario ei lyfr nodiadau hefyd. |
| Plismon | Nawr te ffrindiau! Beth sy'n mynd ymlaen fan hyn? Rydych chi'n edrych yn ddifrifol iawn beth sydd wedi digwydd? |
| Cen | Wel, Cwnstabl, mae rhywun wedi dwyn fy het ledr a'm sgidiau lledr o'r tŷ a does dim pâr arall o sgidiau gyda fi ar gyfer y gystadleuaeth dawnsio llinell. |
| Plismon | Wel! Wel! Mae hyn yn fater difrifol ffrindiau! Fe fydd rhaid i fi gael eich cyfeiriadau. |



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa rif rydych chi'n ei ddeialu mewn argyfwng?
2. Sut fath o eisgidiau oedd gyda Cen?
3. Sut oedd pawb yn edrych?
4. Pa gystadleuaeth oedd yn cael ei chynnal yn Hendre'r Sgidiau?
5. Beth oedd Plismon Puw yn cario yn ei law?
6. Beth oedd y plismon eisiau wrth bawb?



**Trafodwch:-**

Beth yw ystyr yr idiom 'â'i wynt yn ei ddwrn'?

Ydych chi'n gwybod am ragor o idiomau a beth maen nhw'n feddwl?

# Siwsi'n Siopa

Cafodd Siwsi wahoddiad i fynd i briodas Mali, ei chyfnither. Byddai'n rhaid iddi brynu siwt, het, bag llaw ac esgidiau. Penderfynodd ffonio Dela i ofyn iddi fynd i siopa gyda hi.

Yn y prynhawn gwelodd Siwsi siwt fach goch mewn siop ar y stryd fawr. Gwisgodd y siwt goch ond doedd Dela ddim yn ei hoffi. Roedd hi'n edrych fel tomato. Yna, gwisgodd siwt liwgar ond roedd hi'n edrych fel parot.

Aethon nhw 'mlaen i'r siopau eraill. Roedd rhai siwtiau'n rhy hir, rhai eraill yn rhy fyr, rhai'n rhy fawr a rhai'n rhy fach.

Roedd y ddwy wedi cael llond bol ac fe benderfynon nhw fynd i siopa ar ddiwrnod arall i Gaerdydd.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd yn priodi?
2. Pa wisg oedd ei angen ar Siwsi i fynd i'r briodas?
3. Pwy aeth gyda hi i siopa?
4. Sut oedd Siwsi'n edrych yn ei siwt liwgar?



**Trafodwch:-**

Ydych chi'n gallu enwi aelodau o'ch teulu?

Enwch eich …………

Mam, Tad, Mam-gu, Tad-cu, brawd/brodyr, chwaer/chwiorydd, anti, wncwl.

# Siwsi'n Siopa

Cafodd Siwsi wahoddiad i fynd i briodas Mali, ei chyfnither. Byddai'n rhaid iddi fynd i siopa achos doedd dim byd gyda hi i wisgo. Byddai'n rhaid iddi brynu—siwt, het, bag llaw ac esgidiau. Penderfynodd ffonio Dela i ofyn iddi fynd i siopa gyda hi.

Trannoeth, daliodd y ddwy y bws i'r dref. Buon nhw'n edrych o gwmpas y siopau ac yna ae-thon nhw i gael cwpanaid o goffi.

Yn y prynhawn gwelodd Siwsi siwt fach goch mewn siop ar yn stryd fawr. Gwisgodd y siwt goch ond doedd Dela ddim yn ei hoffi. Roedd hi'n edrych fel tomato. Yna, gwisgodd siwt liwgar ond roedd hi'n edrych fel parot.


Aethon nhw mlaen i'r siopau eraill. Roedd rhai siwtiau'n rhy hir, rhai eraill yn rhy fyr, rhai'n rhy fawr a rhai'n rhy fach.

Roedd y ddwy wedi cael llond bol ac fe benderfynon nhw fynd i siopa ar ddiwrnod arall i Gaerdydd.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd yn priodi?
2. Pa wisg oedd ei angen ar Siwsi i fynd i'r briodas?
3. Pwy aeth gyda hi i siopa?
4. Sut deithion nhw i'r dref?
5. Sut oedd Siwsi'n edrych yn ei siwt liwgar?
6. I ble benderfynon nhw fynd i siopa eto?



**Trafodwch:-**

Ydych chi'n gallu enwi aelodau o'ch teulu?

Enwch eich …………
Mam, Tad, Mam-gu, Tad-cu, brawd/brodyr, chwaer/chwiorydd, anti, wncwl, cyfnither, cefnder.

# Dyddiadur Fflora Fflip-Fflop

**<u>Dydd Llun:</u>**
Codais yn gynnar heddi er mwyn dal y bws i fynd i Wersyll yr Urdd Llangrannog.


**<u>Dydd Mawrth:</u>**
Wedi cael brecwast es i a fy ffrindiau ar y llethr sgïo. Dyna hwyl! Dw i'n gallu sgïo'n eitha da erbyn hyn. Heno, aethon ni i'r disgo. Am sbri!

**<u>Dydd Mercher:</u>**
Roedd hi'n ddiwrnod heulog braf heddi a phenderfynais fynd i'r traeth. Daeth Mr Urdd gyda fi.  Roeddwn i am fentro mewn i ogof Crannog Cranc ond roedd Mr Urdd yn teimlo'n ofnus. Gwelais i gist yng nghornel yr ogof a phenderfynais ei hagor. Ces i gnoead gan Crannog. Rhedon ni nerth ein traed allan o'r ogof oer. Rhoddodd Mr Urdd blastr ar fys fy nhroed.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ar ba ddiwrnod yr aeth Fflora i aros yn y gwersyll?
2. Beth wnaeth Fflora ar nos Fawrth?
3. Pwy aeth i lan y môr gyda hi?
4. Pwy oedd yn byw yn yr ogof?
5. Ar ba ran o'i chorff gafodd Fflora gnoead?



**Trafodwch:-**

Beth y'ch chi'n feddwl oedd yn y gist?

Pe byddai cist gyda chi beth fyddech chi'n ei roi ynddi?

# Dyddiadur Fflora Fflip-Fflop

**Dydd Llun:**

Codais yn gynnar heddi er mwyn dal y bws i fynd i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Ar ôl dad-bacio es i o amgylch y gwersyll i gwrdd â hen ffrindiau.

**Dydd Mawrth:**

Wedi cael brecwast es i a fy ffrindiau ar y llethr sgïo. Dyna hwyl! Cwmpais i sawl gwaith, ond ches i ddim dolur. Dw i'n gallu sgïo'n eitha da erbyn hyn. Heno, aethon ni i'r disgo. Am sbri!

**Dydd Mercher:**

Roedd hi'n ddiwrnod heulog braf heddi a phenderfynais fynd i'r traeth. Yn gyntaf es i i'r siop i brynu eli haul, sbectol haul a het newydd. Daeth Mr Urdd gyda fi. Aethon ni'n dau am dro ar hyd y traeth. Roeddwn i am fentro mewn i ogof Crannog Cranc ond roedd Mr Urddd yn teimlo'n ofnus. Gwelais i gist yng nghornel yr ogof a phenderfynais ei hagor. Difarais, achos ces i gnoead gan Crannog. Rhedon ni nerth ein traed allan o'r ogof oer. Rhoddodd Mr Urdd blastr ar fys fy nhroed.


**Dydd Iau:**

Ar ôl brecwast es i i bacio fy nghês a ffarwelio gyda fy ffrindiau a Mr Urdd. Dydw i ddim yn mynd i anghofio'r gwyliau yma am sbel ar ôl helynt Crannog Cranc.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ar ba ddiwrnod yr aeth Fflora i aros yn y gwersyll?
2. Beth wnaeth Fflora ar nos Fawrth?
3. Beth oedd eisiau arni i fynd i lan y môr?
4. Pwy aeth i lan y môr gyda hi?
5. Pwy oedd yn byw yn yr ogof?
6. Beth oedd yn yr ogof?
7. Ar ba ran o'i chorff gafodd Fflora gnoead?




**Trafodwch:-**


Beth y'ch chi'n feddwl oedd yn y gist?

Pe byddai cist gyda chi beth fyddech chi'n ei roi ynddi?


# Dewch i gwrdd ag anifeiliaid Wali Weli




Mae buwch yn brefu.
Mwy nag un buwch yw gwartheg.
Baban y fuwch yw llo.
Cartref y fuwch yw beudy.



Mae dafad yn brefu.
Mwy nag un dafad yw defaid.
Baban y ddafad yw oen.
Cartref y ddafad yw cae/corlan.



Mae ceffyl yn gweryru.
Mwy nag un ceffyl yw ceffylau.
Baban y ceffyl yw ebol.
Cartref y ceffyl yw stabl.



Mae ci yn cyfarth.
Mwy nag un ci yw cŵn.
Baban y ci yw ci bach.
Cartref y ci yw cenel.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

***Pa frawddeg sy'n gywir?***

1. Baban y fuwch yw llo.
   Baban y fuwch yw ebol.

2. Mwy nag un ceffyl yw ceffylau.
   Mwy nag un ceffyl yw gwartheg.


3. Cartref y fuwch yw cenel.
   Cartref y fuwch yw beudy.

4. Mae ceffyl yn brefu.
   Mae ceffyl yn gweryru.


5. Cartref y ci yw stabl.
   Cartref y ci yw cenel.

6. Mwy nag un dafad yw defaid.
   Mwy nag un dafad yw cŵn.


# Dewch i gwrdd ag anifeiliaid Wali Weli




Mae buwch yn brefu.
Mwy nag un buwch yw gwartheg.
Baban y fuwch yw llo.
Cartref y fuwch yw beudy.




Mae dafad yn brefu.
Lluosog dafad yw defaid.
Baban y ddafad yw oen.
Cartref y ddafad yw cae/corlan.



Mae ceffyl yn gweryru.
Mwy nag un ceffyl yw ceffylau.
Baban y ceffyl yw ebol.
Cartref y ceffyl yw stabl.



Mae ci yn cyfarth.
Lluosog ci yw cŵn.
Baban y ci yw ci bach.
Cartref y ci yw cenel.



Mae mochyn yn rhochian.
Lluosog mochyn yw moch.
Baban y mochyn yw porchell/
mochyn bach.
Cartref y mochyn yw twlc.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

***Pa frawddeg sy'n gywir?***

1. Baban y fuwch yw llo.
   Baban y fuwch yw porchell.

2. Lluosog mochyn yw gwartheg.
   Lluosog mochyn yw moch.

3. Mae ceffyl yn brefu.
   Mae ceffyl yn gweryru.


4. Cartref y ci yw stabl.
   Cartref y ci yw cenel.

5. Lluosog ceffyl yw ceffylau.
   Lluosog ceffyl yw gwartheg.

6. Baban y mochyn yw oen.
   Baban y mochyn yw porchell.

7. Lluosog dafad yw defaid.
   Lluosog dafad yw cŵn.


# Graff anifeiliaid y fferm






Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sawl buwch sydd ar y fferm?
2. Oes asyn gyda Wali ar y fferm?
3. Faint yn fwy o ieir sydd yna na moch?
4. Faint yn llai o gŵn sydd yna na gwartheg?
5. Pa anifeiliaid sydd ar fferm Wali?



**Trafodwch:-**

Meddyliwch am gwestiynau y gallech chi eu holi i Wali.


Dyma eiriau dechrau cwestiwn i'ch helpu:

Pa………?  Pwy……. ?  Ble……..?

Pryd….?  Beth…….?  Pam……..?

Sut……..?  Oes……?


# Graff anifeiliaid y fferm






Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sawl buwch sydd ar y fferm?
2. Faint o foch a ieir sydd gyda Wali gyda'i gilydd?
3. Faint yn fwy o ieir sydd yna na moch?
4. Faint yn llai o gŵn sydd yna na gwartheg?
5. Pa anifeiliaid sydd ar fferm Wali?
6. Pa anifail sydd â'r rhif mwyaf?
7. Pa anifeiliaid sydd â'r un faint ohonynt?



**Trafodwch:-**

Meddyliwch am gwestiynau y gallech chi eu holi i Wali.

Dyma eiriau dechrau cwestiwn i'ch helpu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pa……… | Pwy……. | Ble…….. | Pryd…. |
| Beth……. | Pam…….. | Sut…….. | Oes…… |

# Gwahoddiad priodas

Dymuna Dafydd a Siân Ifans
wahodd
Siwsi
i briodas eu merch

Mali
â
Rhys

Yn Eglwys Dewi Sant, Hendre'r Sgidiau
ar ddydd Sadwrn, Mehefin 15fed 2011
am 1 o'r gloch,
ac yna yng Ngwesty'r Llew Du,
Hendre'r Sgidiau


Ateber erbyn:
Mehefin 1af, os gwelwch yn dda .

Mr a Mrs D. Ifans,
Cartrefle,
Hendre'r Sgidiau,
Ceredigion.
*SY24 1WH*



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy sy'n priodi?
2. Ble mae Mali a Rhys yn priodi?
3. Ar ba ddiwrnod mae'r briodas?
4. Faint o'r gloch mae'r briodas?
5. Ble mae'r wledd?



**Trafodwch:-**

Ydych chi wedi bod mewn priodas?
Priodas pwy oedd hi?
A fyddech chi'n hoffi mynd i un?
Beth fyddech chi'n ei wisgo?
Pa fath o anrheg fyddech chi'n brynu?

# Gwahoddiad priodas

*Dymuna Dafydd a Siân Ifans*
*wahodd*
*Siwsi*
*i briodas eu merch*

*Mali*
*â*
*Rhys*

*Yn Eglwys Dewi Sant, Hendre'r Sgidiau*
*ar ddydd Sadwrn, Mehefin 15fed 2011*
*am 1 o'r gloch,*
*ac yna yng Ngwesty'r Llew Du,*
*Hendre'r Sgidiau*


*Ateber erbyn:*
*Mehefin 1af, os gwelwch yn dda .*

*Mr a Mrs D. Ifans,*
*Cartrefle,*
*Hendre'r Sgidiau,*
*Ceredigion.*
*SY24 1WH*



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy sy'n gwahodd Siwsi i'r briodas?
2. Ble mae Mali a Rhys yn priodi?
3. Ar ba ddiwrnod mae'r briodas?
4. Faint o'r gloch mae'r briodas?
5. Ble mae'r wledd?
6. At bwy mae angen anfon ateb i'r gwahoddiad?



**Trafodwch:-**

Ydych chi wedi bod mewn priodas?
Priodas pwy oedd hi?
A fyddech chi'n hoffi mynd i un?
Beth fyddech chi'n ei wisgo?
Pa fath o anrheg fyddech chi'n brynu?

# Caerdydd



***Stadiwm y Mileniwm***
Agorwyd ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd 1999.
Cartref tîm rygbi Cymru.



***Canolfan y Mileniwm***
Agorwyd gan y Frenhines yn 2004.
Dr Who a Torchwood wedi cael eu ffilmio tu allan.



***Stadiwm Dinas Caerdydd***
Symudodd tîm pêl-droed dinas Caer-dydd yma o Barc Ninian yn 2009. En-w'r tîm yw'r Adar Gleision.



***Amgueddfa Werin Sain Ffagan***
Amgueddfa awyr agored.
Hen adeiladau o bob rhan o Gymru wedi eu hail-godi yma.




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Tu allan i ba adeilad y ffilmiwyd rhan o Dr Who?

2. Pa dîm sy'n chwarae yn Stadiwm Dinas Caer-dydd?

3. Amgueddfa ar gyfer beth yw Sain Ffagan?

4. Pryd agorwd Stadiwm y Mileniwm?



**Trafodwch:-**
Ydych chi'n meddwl bod merched yn well na bechgyn yn gwneud gweithgareddau chwaraeon?

# Caerdydd



***Stadiwm y Mileniwm***
Agorwyd ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd 1999.
Cartref tîm rygbi Cymru.
Dal 74,200 o bobl.



***Canolfan y Mileniwm***
Agorwyd gan y Frenhines yn 2004.
Dr Who a Torchwood wedi cael eu ffilmio tu allan.



***Stadiwm Dinas Caerdydd***
Symudodd tîm pêl-droed dinas Caerdydd yma o Barc Ninian yn 2009. Enw'r tîm yw'r Adar Gleision.



***Castell Caerdydd***
Wedi ei adeiladu ar hen gaer Rufeinig.
Codwyd y wal allanol yn 1900'au.



***Amgueddfa Werin Sain Ffagan***
Amgueddfa awyr agored.
Hen adeiladau o bob rhan o Gymru wedi eu hail-godi yma.




***Cynulliad Cenedlaethol Cymru***
Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2006 agorwyd yr adeilad yma. Mae'r Cynulliad yn adeilad gwyrdd.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Faint o bobl sy'n llenwi stadiwm rygbi Cymru?
2. Tu allan i ba adeilad y ffilmiwyd rhan o Dr Who?
3. Pa dîm sy'n chwarae yn Stadiwm Dinas Caerdydd?
4. Pryd adeiladwyd y wal o amgylch y castell?
5. Amgueddfa ar gyfer beth yw Sain Ffagan?
6. Ar ba ddyddiad yr agorwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru?



**Trafodwch:-**
Beth yw ystyr Byd Gwyrdd?
Beth ydych chi'n ei wneud yn yr ysgol ac yn eich cartref i gadw'r byd yn wyrdd?